

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.



Department for Work & Pensions

Caxton House, Tothill Street, London SW1H 9DA

Website: www.dwp.gov.uk

E-mail Ministers at: ministers@dwp.gsi.gov.uk

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

11eg Chwefror 2013

Mae'n bleser gen i gyhoeddi heddiw y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol Credyd Cynhwysol - y canlyniad o waith gofalus a dwys rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a chydweithwyr yn y Cymdeithasau Awdurdodau Lleol.

Mae'r fframwaith ar gael ar dudalen gwefan Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau (cyfeiriad isod).

Byddwn yn cyflwyno Credyd Cynhwysol yn ddiweddarach eleni - gan ddechrau gydag ardal arbrofol ym mis Ebrill yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Rwy'n cydnabod y bydd rhai pobl angen mwy o help nag eraill i wneud cais am Credyd Cynhwysol, i reoli eu taliadau ac i ymgysylltu'n well gyda'r byd gwaith. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn mewn dwy ffordd: drwy sicrhau bod y pecyn Credyd Cynhwysol yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd a bod hawlwyr yn cael eu cyfeirio at gymorth; a thrwy sicrhau bod gwasanaethau cymorth lleol yn eu lle drwy gyfrwng y fframwaith hwn. Bydd rhai eithriadau i'r polisi talu, ac mae canllawiau drafft yn amlinellu pwy allai fod yn gymwys ar gyfer trefniadau amgen hefyd yn cael eu darparu heddiw.

Mae'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn cwmpasu pwy allai fod angen help; pa wasanaethau efallai y byddant eu hangen, a sut, drwy bartneriaethau a ddatblygwyd yn lleol, bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu. Rwy'n gobeithio y bydd yn rhoi llwyfan i chi gynllunio gwasanaethau ac adnoddau dros y flwyddyn i ddod.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ac rydym yn edrych i awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, fel partneriaid allweddol, i weithio gyda ni i ddarparu'r cymorth penodol hwn.

Mae'r fframwaith yn berthnasol i gam 2 o'r rhaglen Credyd Cynhwysol o fis Hydref 2013 a bydd yn cael ei fireinio a'i diweddarau dros y misoedd nesaf i greu fersiwn newydd ar gyfer 2014/15. Bydd hyn yn cael ei lywio gan adborth gennych chi a phartneriaid cyflawni eraill; drwy ddysgu gan y 12 o brosiectau Credyd Cynhwysol a arweinir gan awdurdodau lleol a chwech o brosiectau arddangos a'n profiadau o'r ardal arbrofol yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Mae'r fframwaith yn berthnasol i Brydain Fawr yn ei chyfanrwydd, ond wrth iddo ddatblygu rwy'n disgwyl iddo ddechrau adlewyrchu unrhyw anghenion ac amodau amrywiol, yn rhanbarthol ac yng Nghymru a'r Alban. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes mewn cysylltiad â

Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban am gyfleoedd i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r fframwaith mewn ffordd addas.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i gydweithwyr o'r sector llywodraeth leol am eich holl gefnogaeth, trwy'r tasglu Credyd Cynhwysol a'r grŵp cyfeirio awdurdod lleol, wrth lunio'r fframwaith. Ein camau nesaf fydd i gwblhau'r trefniadau ar gyfer dosbarthu a rheoli cyllid yn ystod cam 2, cymryd camau tuag at weithredu'r trefniadau partneriaeth ar gyfer cam 2 ar lefel genedlaethol a lefel leol, a dechrau'r gwaith ar fersiwn 2014/15. Edrychaf ymlaen i'r cydweithio parhau yn y dyfodol.

Byddwn yn croesawu'n fawr iawn eich sylwadau ar y fframwaith a sut y byddwch yn ymateb iddo yn eich ardal chi. Anfonwch eich e-bost at :
localservices.framework@dwp.gsi.gov.uk

Lord Freud
Gweinidog dros Ddiwygio Lles

Dolen i'r fframwaith: www.dwp.gov.uk/ucla